



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 20 Mai 2021 drwy Teams

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Claire Williams (CW)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Kate Lewis (KL)
Michaela Renkes (LIC)
Trefor Jones (TJ) – *ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddarach*
Nia Miles (NM) – *ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddarach*
Ann Slater (AS) – *ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddarach*
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o Groeso, cadarnhad o'r cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y cyfarfod drwy atgoffa pawb bod union tair blynedd wedi mynd heibio ers lansio'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Soniodd SD am y ffordd y mae'r sefydliad wedi tyfu ac wedi llwyddo i gynllunio gweledigaeth gyffredin dan arweinyddiaeth ymaddasol a chreadigol TE er gwaethaf y cyfnod heriol diweddar.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Jones OBE. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir gydag un gwelliant:

Ym mharagraff 8, estynnir llongyfarchiadau 8 i Rosemary Jones OBE ar ei rôl newydd ar Bwyllgor Partneriaeth y Gymraeg. Fodd bynnag, 'Cyngor' ddylai fod yno, nid 'Pwyllgor'.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau.

Gan gyfeirio at gamau gweithredu parhaus:

- Cam Gweithredu 153 – I'w gwblhau ym mis Medi

- Cam Gweithredu 157 – Roedd SD bellach yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor fel sylwedydd sydd, i bob golwg, yn gweithio'n dda
- Cam Gweithredu 167 – Mae llythyr wedi'i ddrafftio i ddiolch i Meilyr Rowlands – mae hwn bellach yn cael ei gyfieithu
- Camau Gweithredu 169 – Bydd TE yn rhannu adroddiad gwerthuso'r model Cymdeithion yn y cyfarfod nesaf.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Darparodd JG adroddiad ar gyfarfod diwethaf y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2021.

Trafodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac estynnodd JG longyfarchiadau i KP a KL am lunio cyllideb fantoledig gydag amrywiant isel iawn o 0.2%.

Roedd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn gyfredol bellach yn cynnwys y swm ychwanegol o tua £65,000 a ddyrannwyd ymhellach yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor bellach wedi argymhell y gyllideb hon i'r Bwrdd a oedd yn hapus i gytuno'n ffurfiol arni.

Roedd materion yn ymwneud â HSBC a'r gyflogres wedi'u trafod yn y pwyllgor. Adroddodd TE ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o welliant mewn gwasanaethau a bod taliad rhyngwladol bellach wedi mynd drwodd. Er hynny, nid yw'r gyflogres wedi'i rhedeg ers y drafodaeth honno yn y pwyllgor felly bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus ddiwedd mis Mai.

Wrth i aelodau staff barhau i weithio gartref, bydd angen diweddarau'r polisi gweithio gartref ac mae TE wrthi'n llunio polisi rheoli perfformiad hefyd. Rhoddwyd rhybudd ynghylch terfynu swyddfa Abertawe ac mae llinell amser wedi'i llunio ar gyfer symud allan. Mae'r cyfrifwyr wedi cytuno y dylid defnyddio eu cyfeiriad nhw fel Cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau a bydd gweddill y post yn cael ei anfon i gyfeiriad cartref TE.

Diolchodd SD i JG am ddarparu trosolwg cynhwysfawr o fusnes y pwyllgor.

Gwahoddwyd TE i adael y cyfarfod tra bod y Bwrdd yn ystyried pecyn tâl y Prif Weithredwr fel y trafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Ers hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gysylltiadau ffurfiol â thâl y gwasanaeth sifil ond roedd y pwyllgor wedi cytuno y dylai cyflog TE adlewyrchu graddfeydd cynyddrannol uwch weision sifil. Cafwyd cadarnhad gan fentoriaid Adnoddau Dynol hefyd nad oedd y rhewi cyflogau presennol yn ymwneud â phwyntiau datblygiad cyflog.

Cytunodd y Bwrdd y dylai cyflog TE fod yn gysylltiedig â graddfa gynyddrannol er y cydnabuwyd na fu unrhyw ystyriaeth gyllidebol ar gyfer hyn. **Bydd SD a JG nawr yn ystyried graddfa gyflog gynyddrannol briodol ar gyfer TE a byddant yn cysylltu â KL ynglŷn â'r gyllideb.**

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.

Daeth yr Archwiliad Mewnol i'r canlyniad y farn yn 'rhesymol' ac roedd yn fodlon bod gweithdrefnau effeithiol a chadarn ar waith ar gyfer rheoli risg a rheolaeth. Ystyriodd y pwyllgor y cynllun archwilio allanol a'i ffioedd ac roedd bellach yn hapus i argymhell ei gymeradwyo i'r Bwrdd. Cymeradwywyd hyn yn unol â hynny gan y Bwrdd.

Tynnodd MJ sylw at drafodaeth a gynhaliwyd yn y pwyllgor ynglŷn ag ail-dendro timau archwilio. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn ceisio cael eglurhad ynghylch polisi cylchdroi tîm Archwilio Cymru a byddai hyn yn cael ei rannu yn y cyfarfod nesaf.

Roedd y gofrestr risg wedi'i hystyried ac roedd TE wedi cyflwyno risg newydd yn ymwneud â chyllid a grantiau yn y dyfodol. Ymddengys fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gweithio'n eithriadol o dda.

Cafwyd golwg fanwl ar ddulliau cymeradwyo lle rhoddodd Mark Isherwood a Sue Roberts fanylion defnyddiol ar y broses. Codwyd cwestiynau ynghylch yr arfer presennol o gael aseswyr gwahanol ar y ddau banel. Cytunwyd hefyd bod angen diffiniad clir ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Cadarnhaodd TE fod y polisi cyffredinol ar wrthdaro buddiannau wedi'i adfer ers y cyfarfod o'r pwyllgor. Felly, bydd y pwyllgor yn ymdrechu i lunio un diffiniad sy'n diwallu'r anghenion am yr holl waith ar draws y sefydliad.

Trefnwyd i gael golwg fanwl ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mehefin.

Diolchodd SD i MJ am ddarparu'r trosolwg defnyddiol a chynhwysfawr hwn ar fyr rybudd.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy longyfarch Kirsty Payne yn ffurfiol ar enedigaeth ei merch.

Yna cyflwynodd TE ei hadroddiad Prif Weithredwr a oedd wedi'i ddisbarthu i bawb cyn y cyfarfod. Mae'r wefan newydd wedi'i lansio ac wedi dangos cynnydd addawol mewn ymweliadau â'r safle.

Mae lles staff yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i TE ac mae hyn wedi bod yn anoddach i'w fonitro wrth i'r sefyllfa barhau. Cynhelir sgysiau dyddiol gyda staff i wneud yn siŵr eu bod yn iawn a chynhelir cyfarfodydd tîm a digwyddiadau llesiant yn rheolaidd. Mae yna gynlluniau i ddod â'r holl staff ynghyd wyneb yn wyneb ar 9 Mehefin oherwydd erbyn hynny pob un wedi cael o leiaf un brechiad Covid. Mae KL

yn cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â'r polisi gweithio gartref a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod rheoli nesaf. Bydd angen i'r pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol ystyried y goblygiadau i gcontractau cyfredol.

Mae'r sioeau teithiol yn mynd yn dda a chynhelir dwy yr wythnos nesaf: Caerfyrddin/ Ceredigion ac Abertawe/Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r broses gymeradwyo bellach wedi'i chwblhau a bydd darparwyr yn cael gwybod am y canlyniad erbyn diwedd mis Mai. Cynhelir arolygon gydag aelodau'r panel a'r tair gwlad er mwyn gwerthuso a sicrhau priodoldeb parhaus y broses hon. Bwriedir cynnal digwyddiad dathlu ym mis Gorffennaf ar gyfer darparwyr llwyddiannus. Awgrymodd MJ y gellid ystyried hefyd dyfarniadau ansawdd ar gyfer darparwyr o'r fath.

Mae gwaith yn y sector ieuencid yn datblygu'n wirioneddol ac mae'r gwaith o ymgysylltu â phrif swyddogion ieuencid yn cynyddu. Mae'n amlwg bod mwy o arweinyddiaeth ieuencid a'r sector ôl-16 yn mynychu digwyddiadau wedi'u trefnu.

Mae adroddiad ar arloesi wedi'i gynnwys yn yr Atodiad. Mae'r ail gyfres arloesi bellach wedi'i chynllunio ac roedd pob lle wedi'i gadw o fewn 48 awr i agor yr archebion. Roedd TE yn falch iawn o nodi'r diddordeb a'r galw yn y maes hwn felly bydd angen mynd ati nawr i ystyried cynllunio cyfres 3.

Diolchodd TE i holl aelodau'r Bwrdd a oedd wedi cyfarfod â'r tîm Adolygu Arweinyddiaeth ac roedd yn awyddus i weld beth oedd canlyniadau'r adolygiad. Roedd 1.3 yn cyfeirio at arweinyddiaeth systemau a oedd yn sail i ba mor werthfawr fyddai cael y tri cohort i ddod ynghyd a gweithio ar draws y sector ac yn ddaearyddol hefyd ledled Cymru. Mae eu cyfraniad mewn sioeau teithiol wedi bod yn werthfawr iawn ac mae angen mynd ati nawr i ystyried sut gellir ymestyn y rôl Cydymaith er mwyn cynnig y cyfleoedd hyn i'r sector ehangach. Bydd Cohort 4 yn cael ei recriwtio ar ôl ystyried canlyniadau'r Gwerthusiad Cymdeithion.

Gwelwyd rhai rhwystrau gyda chynnydd Insight (Para 2.1) wrth gyfeirio'n ôl at y cyfyngiadau symud cyntaf a gafodd effaith ganlyniadol enfawr. Mae'r adroddiad bellach wedi amlygu 12 o elfennau nodweddiadol a fydd yn benawdau ar gyfer astudiaethau achos er mwyn dangos y ffordd orau y gall ysgolion ddatblygu dysgu proffesiynol. Mae cynllun cyfathrebu manwl bellach wedi'i lunio ac mae cyfarfodydd wythnosol yn cael eu sefydlu gyda'r grŵp golygyddol. Bydd angen gofal er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn teimlo ei bod yn cael ei chynnwys ac nad yw dyheadau astudiaethau achos yn ymddangos yn anghyraeddadwy i rai.

Mae paragraff 2.3 yn cyfeirio at flaenoriaethau llesiant. Mae gweithgor Strategaeth Cymru Gyfan bellach wedi cyfarfod ddwywaith. Mae'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer astudiaeth o arweinyddiaeth dosturiol bellach wedi dechrau ac mae cais wedi mynd allan i gyn-benaethiaid i gyfrannu at y gwaith hwnnw. Mae'r undebau yn gefnogol iawn hefyd o'r gwaith hwn ac yn cymryd rhan ynddo.

Yna cyfeiriodd TE at y ffrwd waith gorfforaethol, gan dynnu sylw at y ffaith ei bod bellach wedi bod ar waith am flwyddyn. Diolchodd TE i KL am drefnu hyfforddiant

seiberddiogelwch i'r Bwrdd ac roedd yn falch o adrodd bod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi llwyddo i gyflawni'r dystysgrif Cyber Essentials.

Bydd y cynllun corfforaethol yn cael ei ddiwygio yn ystod tymor yr haf pan fydd yr holl werthusiadau'n cael eu dwyn ynghyd i gyfrannu at y Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth.

Mae TE wedi cyfarfod â nifer o Gyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol (ALLau) sydd wedi bod yn gyfle gwerthfawr i gydweithio â'r rhai nad ydynt yn mynd i fod yn rhan o'r consortia rhanbarthol. Bydd TE ar raglen radio fyw heno yn sôn am arweinyddiaeth greadigol ac arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar chwilfrydedd.

Mae pecyn tanysgrifio'r rhestr bostio wedi cynyddu felly braf oedd nodi'r cynnydd yn y gwaith ymgysylltu yn yr achos yma. Mae tocynnau bellach yn fyw ar gyfer cyfres nesaf Datgloi Arweinyddiaeth a fydd yn cynnwys rhai siaradwyr diddorol iawn o amrywiaeth eang o feysydd.

Cadarnhaodd MR y bydd yr Adolygiad Arweinyddiaeth yn cael ei gyflwyno i'r gweinidog ac y bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i ddatblygu cynllun gweithredu i ddatblygu argymhellion. Bydd y gwaith hwn wedyn yn llywio'r llythyr cylch gwaith nesaf hefyd a fydd, mae'n debyg, yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref. Mae nifer o adroddiadau sydd ar fin cael eu cyhoeddi a fydd yn cyd-fynd â'r Adolygiad Arweinyddiaeth fel adroddiad TPL (y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)). Bydd y rhain i gyd yn helpu i lywio'r ffordd orau o ddatblygu arweinyddiaeth.

Holodd CW ynghylch amserlenni cwblhau ar gyfer Canllawiau Dysgu Proffesiynol gan fod ysgolion yn amlwg yn awyddus i'w derbyn i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio. Roedd TE yn gobeithio y byddai'r adnodd ar gael erbyn diwedd tymor yr haf.

Holodd JG ynghylch goblygiadau rhai ALLau yn gadael consortia rhanbarthol a gofynnodd i MR hefyd a oedd unrhyw arwyddion o newid polisi dan y gweinidog newydd. Cadarnhaodd MR fod trafodaethau ar y gweill a allai newid yr ôl troed rhanbarthol. Roedd yn ddyddiau cynnar iawn i ystyried unrhyw newidiadau mewn cyfeiriad ond roedd arwyddion bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried materion yn y dyfodol megis newidiadau i ddiwrnod/tymor/blwyddyn ysgol.

Diolchodd SD i TE am adroddiad manwl iawn a llawn gwybodaeth ac anogodd pawb i edrych ar yr adroddiad arloesi. Byddai SD yn awyddus i weld y Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth hefyd pan fydd ar gael.

5. *Comisiwn Cohort 2*

Croesawodd SD Trefor Jones (TJ) a oedd yn falch o gael y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith Cohort 2 ar y Comisiwn.

Roedd TJ yn awyddus i bwysleisio nad oedd yr adroddiad hwn i fod yn ddogfen statig ond yn lasbrint cadarnhaol ac adeiladol ar gyfer gweithredu i'w gyfeirio at

lunwyr polisi a phartneriaid haen ganol. Mae swyddogion cyswllt eisoes yn trafod sut i gymryd perchnogaeth o hyn a datblygu'r argymhellion. Diolchodd TJ i'r Bwrdd a TE am eu cefnogaeth wrth alluogi ymweliadau rhyngwladol gan fod y rhain wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddarparu cipolwg pellach ar gyfer y gwaith hwn.

Amlinellodd TJ nodau'r Comisiwn wrth ystyried rôl arweinyddiaeth addysgol a gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymru lle mae diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn wedi bod yn ymdrech tîm dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bellach mae lansiad 'meddal' cychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer y wefan ddechrau'r mis nesaf.

Amlinellodd TJ strwythur yr adroddiad sy'n gosod y cefndir gyda fideo gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd pwyntiau gweithredu clir gan amlygu'r canlyniadau allweddol i'w cyflawni.

Roedd TJ yn awyddus na ddylai hyn i gyd ddirwyn i ben gyda'r lansiad a hoffai ddatblygu'r weledigaeth ymhellach a nodi mwy o gerrig milltir allweddol.

Gwnaeth gwaith y Comisiwn argraff fawr ar CW, fel Pennaeth sy'n gwasanaethu, ac roedd yn gwerthfawrogi y byddai'r dull beiddgar a phwerus hwn yn codi llawer o gwestiynau diddorol ar lefel polisi.

Rhoddodd TE eglurhad pellach o ddiben y lansiad meddal wrth ganiatáu i bobl ddarllen a phwyso a mesur yr e-ddogfen yn llawn cyn mynd â hi allan ar sioeau teithiol.

Holodd MR ai adroddiad **ar gyfer** yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol neu **gan** yr Academi oedd hwn. Esboniodd TE fod y Comisiwn hwn wedi'i gynnal mewn ymateb i'r hyn a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith diwethaf.

Diolchodd SD i TJ am ei gyflwyniad gan ganmol ei frwdfrydedd a'i ymrwymiad i'r weledigaeth hon. Cytunodd SD fod angen i ni edrych tuag allan wrth archwilio modelau rhyngwladol. **Cytunodd SD i siarad â TJ y tu allan i'r cyfarfod hwn ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth heddiw.**

6. Profiad Secondiad

Estynnodd SD groeso i Nia Miles (NM) i'r cyfarfod a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei gwaith fel secondai ers mis Medi diwethaf ar les ac arloesedd.

Cychwynnodd NM drwy ddweud cymaint yr oedd wedi mwynhau ei secondiad a oedd wedi rhoi cyfleoedd gwych iddi ddatblygu'n broffesiynol a meithrin cysylltiadau ledled Cymru.

Roedd NM wedi llunio polisi llesiant yn nhymor yr Hydref a oedd yn canolbwyntio ar hybu a chefnogi iechyd a lles y tîm ac yna'n ymestyn i gynnwys pawb arall yng Nghymru. Roedd y polisi hwn yn seiliedig ar y 5 ffordd tuag at les: cysylltu, bod yn fywiog, bod yn sylwgar, dal ati i ddysgu a rhoi. Roedd y polisi'n ystyried y ffyrdd

gorau o sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel cymryd seibiannau, gweithio oriau rhesymol, gwahanu'r gwaith a'r cartref a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Pwysleisiodd NM bwysigrwydd sicrhau ansawdd yn hyn o beth ac fe gyfeiriodd at yr asesiad allanol gan Investors in Wellbeing a oedd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin drwy arolygon a chyfweliadau. Bydd y rhan fwyaf o'r aelodau staff yn gwneud hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl hefyd.

Mae'r sesiynau Pen-i-Ben neu Head-to-Head yn boblogaidd iawn ac mae Penaethiaid newydd yn ymuno â'r gofod hwn yn rheolaidd. Mae rhywfaint o awydd i gynnal ymarfer tebyg ar gyfer Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol felly bydd hyn yn cael ei ystyried ar gyfer mis Medi.

Mae Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Llesiant Arweinyddwr Addysgol wrthi'n ystyried y 3 piler sef polisi, darpariaeth ac egwyddorion. Mae'r fforwm hwn yn bwriadu cynnwys cynifer o arweinyddwr â phosibl gyda'r nod o newid y diwylliant sy'n ymwneud â lles.

Cyfeiriodd NM at y gwaith ar Arweinyddiaeth Dosturiol sef y darn mewnwelediad diweddaraf. Mae hwn yn gysyniad diddorol a ddefnyddir yn helaeth yn y GIG a rhoddir ystyriaeth i'r ffordd y gellir addasu hyn ar gyfer y maes addysg.

Elfen arall o waith NM oedd Arloesi ac amlinellodd y gwaith a wnaed yng Nghyfes 1, dan arweiniad yr Athro Andy Penaluna. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn cynnwys tua 70 o arweinyddwr o bob cwr o Gymru.

Mae argymhellion Cyfes 1 wedi'u hymgorffori i'r paratodau ar gyfer Cyfes 2 a gynhelir yn ystod tymor yr haf ac a fydd yn cynnwys amrywiaeth ehangach o siaradwyr. Roedd pob un o'r llyfyrdd ar y rhaglen hon, o'r enw 'The Innovation Leader' wedi'u cadw o fewn dau ddiwrnod.

Diolchodd SD i NM am drosolwg cynhwysfawr iawn o'i gwaith a dymunodd y gorau iddi gyda'r rhaglen arloesi ddiweddaraf.

7. Adroddiad Arolwg Llesiant y Sector Gwaith Ieuenctid 2021

Estynnodd SD groeso i Ann Slater, sydd hefyd yn seondai ac a oedd yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei gwaith gyda'r sector ieuenctid. Mae AS yn dod o gefndir gwaith ieuenctid ei hun ac mae'n mwynhau'r heriau newydd ei seondiad.

Adroddodd AS ar arolwg diweddar gan weithwyr ieuenctid ar les a oedd yn dangos amrywiaeth ac ystod teitlau swyddi arweinyddwr gwaith ieuenctid. Roedd yn ddiddorol nodi hefyd bod gan 52% o arweinyddwr ieuenctid lai na 5 mlynedd o brofiad yn y maes.

Roedd y prif ffactorau sy'n effeithio ar lesiant yn y sector hwn yn cynnwys: llwyth gwaith, cydnabyddiaeth o'u gwaith gan eraill, cyllid a rheoli cyllidebau a materion diogelu/staffio. Roedd eu prif ffynonellau cymorth gan gydweithwyr, aelodau o'r teulu neu reolwyr – ychydig iawn o ymyriadau a gafwyd o ffynonellau allanol fel hyfforddiant neu gymorth mentora.

Roedd AS yn y broses o gynllunio grwpiau ffocws gydag arweinwyr ieuenctid ac roedd yn ystyried a fyddai fforwm Pen-i-Ben hefyd yn ddefnyddiol yn y maes hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan MJ, dywedodd AS nad oedd yr arolwg wedi cynnwys data rhywedd y tro hwn ond cytunodd i ehangu'r arolwg i gynnwys mwy o ddemograffeg ac i'w ymestyn hefyd i gynnwys mwy o ymatebion gan y sector gwirfoddol y tro nesaf

Gallai CW weld yr angen i gynnal gweithgareddau fel arolygon fel digwyddiadau ar wahân ar draws y gwahanol sectorau ond awgrymodd y gallai fod yn bosibl yn y dyfodol i anelu at gael rhyw fath o unffurfiaeth o ran dull ar draws sectorau. Cytunodd AS ac roedd yn falch o nodi nifer y mynychwyr o'r sectorau ieuenctid ac ôl-16 yn y digwyddiadau Cyfres Arloesi.

Holodd JG ynghylch y strwythur gyrfaoedd ymhlith gweithwyr ieuenctid. Cadarnhaodd AS mai dyma oedd canolbwynt ymholiad bach yr oedd yn ymgymryd ag ef ac roedd yn ddiddorol nodi mai dim ond 32% o arweinwyr ieuenctid oedd yn credu bod llwybr gyrfa clir.

Pwysleisiodd MP yr angen i gynnwys mwy o gyfranogwyr o'r sector gwirfoddol a chadarnhaodd AS y byddai'n cynnal cyfarfodydd gyda'r sector hwn yn ystod yr wythnosau nesaf ac y byddai'n eu hannog yn gryf i ymgysylltu.

Diolchodd SD i AS am ei darlun gwerthfawr o'r sector ieuenctid a chanmolodd ei brwdfrydedd wrth ymgysylltu â'r gwaith hwn.

8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Dirwyn y Cyfarfod i Ben

Nid oedd unrhyw faterion eraill. Diolchodd SD i holl aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau i'r cyfarfod hwn ac am eu hamser a'u mewnbwn hefyd wrth gymryd rhan yn yr Adolygiad Arweinyddiaeth.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ddydd Gwener 6 Gorffennaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.

Log Gweithredu

Rhif.		Perchennog	Terfyn amser	Statws
153	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	Y cyfan	Mis Medi 2021	
167	Diolch i Meilyr Rowlands am ei gefnogaeth	SD	Gorffennaf 2021	

169	Rhannu'r adroddiad ar arweinyddiaeth systemau ag aelodau'r Bwrdd	TE	Mehfin 2021	
170	Ystyried graddfa gyflog gynyddrannol briodol ar gyfer TE	SD a JG	Gorffennaf 2021	
171	Siarad â TJ ynghylch y pwyntiau a godwyd mewn trafodaeth ar y Comisiwn	SD	Gorffennaf 2021	